

## Cofion

- Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiw'n arbennig am Nesta W. Davies (Cefn Meiriadog) sydd yn Ysbyty Gobowen yn dilyn llawdriniaeth ddechrau'r wythnos, hefyd Morfydd Roberts (Llanefydd) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai dyddiau. A threulio noson yno hefyd fu'n rhaid i Elias Davies (Saron) y penwythnos diwethaf. Mae Lloyd Edwards (Groes) yn gobeithio cael dod adre o'r ysbyty y penwythnos hwn yn dilyn y llawdriniaeth gafodd yntau. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan iawn iddynt. Cyflwynwn hwy oll, ynghyd ag eraill o'n plith sydd yn cael gwahanol driniaethau ar hyn o bryd, i ofal Duw gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Llongyfarchiadau i Ywain ap Rhys (Hiraethog) a Fiona ar enedigaeth merch, Lili. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

## I ddod

- **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mehefin 11eg am 7.30. Sgwrs gan Margaret Lake ar "...a bydd y deillion yn gweld" a swper i ddilyn am £3.00.
- **Diwrnod Genod (16+)** yng Ngholeg y Bala nos Wener a/neu dydd Sadwrn, Mehefin 15-16eg. Cyfle i ymlacio, rhannu cymdeithas a dysgu. Cofiwch bod angen archebu lle ymlaen llaw. Mwy o fanylion a ffurflen archebu gan Angharad Clwyd: (01678) 520565.
- **Adnabod DAWN** - y sesiynau dilynol yn y gyfres i feithrin arweinwyr lleol ar Mehefin 19eg, Gorffennaf 3ydd a'r 17eg.
- **Cwrs leuencid (Blwyddyn 7-11)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 30ain - Awst 3ydd. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Anrhefn Awst (8-12 oed)** yng Ngholeg y Bala Awst 13eg - 16eg. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.
- **Souled Out (15+, myfyrwr ac oedolion ifanc)** yng Ngholeg y Bala, Awst 18fed - 24ain. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Gweler isod am y gostyngiadau.

Bydd gostyngiad o £10 i bob un (hyd at 18 oed) o'r Ofalaeth fydd yn mynychu un o'r cyrsiau uchod yng Ngholeg y Bala. (Os bydd y coffrau'n caniatáu, mae'n bosib y gall yr Henaduriaeth hefyd gynnig gostyngiad o £10 yr un.) Cysylltwch â Mair ynglŷn â'r gostyngiadau (870632).

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3<sup>ydd</sup> Mehefin 2012

*Daear faith nac uchder nef  
byth ni ffeindia  
arall tebyg iddo ef  
Halelwia! (CFF358 W. Williams)*

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Croeso mawr i'r oedfaon heddiw. Wedi'r fflam fe ddaeth glaw! Dŵr a thân! Rhyfedd fel mae Duw yn defnyddio'r ddau air i ddisgrifio dylanwad ei Ysbryd Glân. Gweddïwn am i'r Ysbryd ein harwain heddiw at Iesu ac am iddo ein hatgoffa o beth ddywedodd Iesu, o beth a wnaeth Iesu ac o pwy ydi Iesu! Oes na rywun sy'n debyg iddo? Braint yr Ysbryd - a'n braint ninnau - yw dweud 'Na! - does neb all gymharu â'n Harglwydd!'

Dydw i ddim yn redwr wrth reddf na bwriad ond rhaid cyfadde fy mod wedi cychwyn loncian ar ôl blynyddoedd hir o segurddod! Es i ddim yn bell ar y diwrnod cyntaf! Ac mae gen i ofn mai ara deg iawn ydw i wrth fynd. Fydd dim rhaid i neb yn yr 'Olympics' boeni rhyw lawer. Pam trafferthu? Wel y 'Gairathon' sy'n cael y bai.

Cofiwch am y digwyddiad sydd yn cymryd lle dydd Sadwrn nesa sef loncian/rhedeg cyfnewid a marathon Mari Jones o Lanfihangel i'r Bala. Mae'r 28 milltir wedi ei rannu i adrannau o 5/6 milltir ac fe fydd y rhedwyr yn cario copi o Feibla Cymraeg a Saesneg fel fflam yr Olympiad i ddangos fel y mae fflam Gair Duw wedi mynd allan i'r holl fyd dan fendith tanllyd yr Ysbryd. A hynny, i raddau helaeth oherwydd y ffordd ddaru Duw fendithio Thomas Charles y Bala, ac am fod gwerinoedd tlawd y byd yn gallu uniaethu hefo Mari Jones wrth glywed amdani'n cynilo'i harian prin, aberthu cymaint a llawenhau cymaint o gael Beibl iddi hi ei hun!

Beth amdani dydd Sadwrn? Dwi am redeg y filltir olaf!!! Ymuno hefo'r lleill ganol pnawn wrth iddynt ddod o ochre Llanuwchllyn a rhedeg i mewn at ochr Bala i'r llyn. Rhowch wybod i Elen Elias (01492 543320 / 07760 452145) os ydych chithau am redeg cymal o'r daith - hyd yn oed y canllath olaf hefo fi! Neu mae croeso i chi ddod i'n cyfarfod wrth yr argae ar ochr Llangywer i'r Bala i weld y rhan olaf o'r daith. Gobeithiwn fod yno toc ar ôl 4.00 o'r gloch.

OEDFA ARBENNIG wedyn am 7:30 yr hwyr ger yr Eglwys yn Llanycil pryd y byddwn yn moli'r Arglwydd am iddo fendithio'r byd trwy ei Air. Byddwn yn clywed am y cyfieithwyr, am y darllenwyr ac am y rhai sydd wedi cymryd y Gair i'w calon ac wedi rhoi eu bywyd i wasanaethu Duw wedi iddynt brofi'r tân yna yn eu calon wrth i'r Ysbryd oleuo Iesu iddynt. Dewch draw i ymuno hefo ni a chael dipyn o'r hanes gwefreiddiol - cyfarfod yn y dre am sglodion am 6:30 ac yna wrth Eglwys Llanycil am 7:30. Mi fydda i'n edrych ymlaen at y sglodion ar ôl yr holl redeg!

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Aled Owen, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn y Ffestri Llansannan am 8.00.
- Sadwrn • **Y Gairathon** – Y daith o Lanfihangel i'r Bala (mwy o fanylion ar y dudalen flaen). Cyfarfod yn y Bala am sglodion am 6:30 a bydd oedfa arbennig ger Eglwys Llanycil am 7:30.
- Sul nesaf • **Cymanfa Ganu** yr Annibynwyr (oedolion a phlant) yng Nghapel Bethel, Stryd Newydd, Yr Wyddgrug am 2.30. Arweinydd: Iona Jones, Llansilin. Croeso cynnes i bawb.
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Ar derfyn yr oedfa bydd y plant a'r oedolion yn cyflwyno'r gwaith llafar. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00. Bydd aelodau Capel Peniel yn mynd ar bererindod i gyfeiriad Llanrhaeadr ym Mochnant.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd aelodau Capel Henllan yn mynd ar bererindod i Dŷ Mawr Wybrnant yn dilyn cinio yn Elen's Castle Hotel, Dolwyddelan. Enwau i Alys neu Margaret erbyn Dydd Sul, Mehefin 3ydd, os gwelwch yn dda. Bydd aelodau Capel y Groes hefyd yn mynd ar bererindod. Bydd mwy o fanylion ar gael dydd Sul.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00, a bydd Cinio Cynnil yn Llanefydd i gasglu arian at apêl Guatamala. Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau